# LLAW AR Y LLYW

Sandra Morris Jones

Wel, dyma ni wedi cyrraedd cyhoeddi 200fed rhifyn ein cylchgrawn arbennig ni. A dyma fy nhro olaf i ysgrifennu'r golofn hon iddo. Testun diolch sydd gennyf i gymaint ohonoch. Sylweddolaf mai gwirfoddolwyr sy'n gweithio ar ein cylchgrawn a sylweddolaf fod oriau maith yn cael eu treulio yn ei roi at ei gilydd. Rwyf wedi mwynhau darllen cyfraniadau cynifer o lenorion a darpar-lenorion, wedi mwynhau edrych ar y lluniau, ac wedi gwerthfawrogi dwylo medrus y golygyddion. Nid wyf wedi anghofio ymdrechion y casglwyr hysbysebion a Catherine Watkin Thomas yn arbennig. Mae'n wych erbyn hyn fod Meryl Davies yn gwasanaethu'n Is-olygydd parhaol ar is-bwyllgor *Y Wawr*. Rhaid canmol gwaith dylunio arbenigwyr megis Elgan Davies yn ogystal â'r gweisg sy wedi cyhoeddi'r holl rifynnau ers y dechrau. Ac rwyf wedi mwynhau trafod y cynnwys gydag aelodau a gydag eraill sy ddim yn aelodau. Mae'n syndod faint o ddynion sy'n mwynhau darllen *Y Wawr*. Rydym i gyd wedi dysgu am agweddau ar hanes, daearyddiaeth, etifeddiaeth a chelfyddyd ein cenedl ac wedi cyfoethogi ein bywydau. Mae'r cynnwys, ar hyd y blynyddoedd, wedi dangos ein hiaith ar ei gorau. Ymfalchïwn yn y ffaith mai'r *Wawr* yw'r cylchgrawn Cymraeg â'r nifer mwyaf o ddarllenwyr yn y byd!

O ran y mudiad yn gyffredinol, diolch yw'r gair allweddol, unwaith eto. Mae rhwydwaith o weithwyr cydwybodol a galluog yn gweithio'n ddi-baid ac yn ddygn dros werthoedd gorau'r genedl. Yn ganolbwynt i'r cyfan, mae tîm eithriadol sy'n destun edmygedd gan fudiadau eraill. Dymunaf gydnabod fy niolch i Tegwen, Delyth, Jayne a Miriam am eu gofal ohonof ac o'r mudiad. Yna yn ein rhanbarthau mae swyddogion datblygu yn hyrwyddo gwaith y canghennau a'r clybiau. Maent bob amser yn llawn asbri a syniadau newydd, arloesol. Rwyf yn eu hedmygu'n fawr, bob un ohonynt. Gwnânt yn sicr fod popeth yn rhedeg yn llyfn heb fod yn rhaid i unrhyw un ohonom boeni am yr hyn sy wedi digwydd y tu ôl i'r llenni. Maent yn angylion gwarcheidiol ohonom oll, miloedd ohonom a does gan yr un ohonom le i boeni na chwyno o gwbl. Mae hynny'n dipyn o gamp. Yn fam-gu ddoeth, mor fawr ei chariad atom oll, mae'n Llywydd Anrhydeddus, yr unigryw Sylwen Lloyd Davies. Yn anffodus, mae ystyriaethau iechyd yn golygu nad yw Sylwen yn medru bod yn bresennol yn nifer o'n gweithgareddau ond mae ei gafael yn dynn ar ein mudiad. Mae ymroddiad gwirfoddol ein swyddogion cenedlaethol yn destun pleser. Gwn y medraf ddibynnu ar Meirwen, Haf, Nesta, Anne a Gwyneth, a heb anghofio Einir a Cynthia am eu presenoldeb yn y gwyliau cenedlaethol ac am eu cyfraniadau gwerthfawr yn ein cyfarfodydd pwyllgor.

Mae'n amhosibl i mi beidio â diolch i'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol am ei ofal anhygoel ohonof, gan gyfeirio'n bennaf at Dr Elin Jones a nyrsys Ward Leri. Erbyn hyn rwyf yn rhydd o ganser ac yn medru edrych ymlaen at flynyddoedd o fywyd cyffrous! Mae'n braf cael eich trin fel unigolyn cig a gwaed ac nid fel rhif a chael cyfle i drafod cyflwr eich iechyd yn y Gymraeg.

Yn olaf, ond nid yn lleiaf, diolch i chi i gyd, ym mhob rhanbarth, cangen a chlwb am eich cefnogaeth selog i'r mudiad ac i mi yn ystod fy salwch. Rwyf wedi gwerthfawrogi pob cerdyn, llythyr, galwad teleffon a neges. Buont oll yn rhan o'r gwella. Gwn y rhowch yr un lefel o gefnogaeth i Meirwen ac Anne wrth iddynt ymgymryd â'u swyddi. Mae Nesta eisoes wrthi. Braint yw cael adnabod y gwragedd talentog, hwyliog hyn, fel y gwelwch chwithau'n ystod y misoedd nesaf. Hir oes i'r *Wawr* ac i'r mudiad.

'Nawr, mae'n amser cael cip sydyn ar y rhifyn arbennig hwn wrth gael paned. Mae'r tîm te yn gwneud yn siŵr bod hynny'n digwydd ar ddiwedd pob cyfarfod. Diolch iddynt, sef Enid, Eirlys, Edith ac Olwen. 'Sdim byd fel darllen ein trysor dros baned!

Bu Cwrs Crefft y De yn Nhyglyn Aeron eleni eto, ac fe gafwyd diwrnod arbennig. 'Roedd pedwar cwrs blasu dan ofal y tiwtoriaid canlynol: Gwneud broets o wydr a defnydd gyda Ffion Gwyn, Argraffu ac addurno papur gyda Ruth Jên, Doliau Ŷd yng nghwmni Aeres James, a gwneud lluniau o gerrig gyda Rhiannon Ling (Bodoli).

Dyma lun o holl staff y mudiad, gan gynnwys yr aelodau newydd, sef Menna, Hazel, Lowri a Jên. Hwn oedd y pwyllgor staff cyntaf iddyn nhw, a'r un olaf i Yvonne, sydd wedi ymddeol o'i swydd ar ôl pymtheng mlynedd yn gweithio i'r Mudiad, Cafodd anrheg o gadwen unigryw, a thusw o flodau. Diolch Yvonne am eich gwaith dros yr holl flynyddoedd, a dymuniadau gorau i'r aelodau newydd ar y staff.